Llais Y Derwent

Rhif 40 Mawrth 2019 Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg a Chymry alltud Canolbarth Lloegr 25c

Dydd Gŵyl Dewi Hapus!

Dydd Gŵyl Dewi Hapus i bob un o'n darllenwyr boed dysgwyr neu Gymry Cymraeg, yn Lloegr neu yng Nghymru. Mae Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn ffynnu ar hyn o bryd efo rhwng 15 a 20 o bobl ym mhob cyfarfod. Mae'r Bore Coffi Popeth yn Gymraeg Nottingham yn gwneud yn dda iawn hefyd efo 12 o bobl fel arfer. Yn y cyfamser, mae dau grŵp newydd wedi dechrau ym Manceinion sef Grŵp Sgwrs a Pheint Manceinion, sy'n cynnal eu cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill, a Grŵp Siarad Cymraeg Llyfrgell Nantwich sydd newydd ddechrau ym mis Chwefror. Pob hwyl i'r ddwy fenter! Mae angen mwy o weithgareddau Cymraeg tebyg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Os ydy'r iaith Gymraeg i fyw ac i dyfu mae rhaid i ni i gyd gwneud rhywbeth i gyfannu, megis digwyddiadau cymdeithasol, cyngherddau, teithiau cerdded, ysgrifennu yn Gymraeg ar y cyfrangau cymdeithasol, neu beth am dwyn perswâd ar rywun i fynd ati i ddysgu'r Gymraeg? Dim ond pethau bychain yw'r rhain ond fel dwedodd Dewi Sant 'Gwnewch y pethau bychain! Dyna yw'r ffordd ymlaen.

Cawson ni newyddion trist ar ddechrau'r flwyddyn, sef bod Geoff Pugh wedi marw. Roedd Geoff yn gyn aelod o Gylch Dysgwyr Cymraeg Derby o'r dyddiau cynnar, ac yn gyn aelod o ddosbarth Cymraeg WEA o dan ofal Delyth Neill. Daeth Geoff o Borth Talbot yn wreiddiol a symudodd Geoff i fyw yn Derby yn 1966 pan ddaeth i weithio yn Rolls Royce. Roedd Geoff yn Gymro i'r carn a wnaeth o gyfraniad mawr i Glwb Rygbi Derby yn rhoi lawer o amser yn chwarae i'r tîm ac yn hyfforddi'r timau ieuenctid. Ar ôl ymddeol bu Geoff yn canu mewn corau lleol a hefyd yn mynd ati i ddysgu'r Gymraeg. Pan oedd Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn arfer cwrdd ar fore Dydd Mawrth roedd Geoff yn aelod ffyddlon. Roedd dros 300 o bobl yn mynychu'r angladd yn amlosgfa Markeaton, Derby ar ddydd Gwener 25 o Ionawr a chlywsom deyrngedau hyfryd gan ffrindiau, cyn cydweithwyr a theulu. Heddwch i'w lwch.

Os ydych chi am gyfrannu erthygl neu hysbysebu digwyddiad yn Llais y Derwent cysylltwch a ni dryw e-bost menteriaithlleogr@mail.com

Jonathan Simcock

SAY SOMETHING in WELSH .com

Hanes Dewi Sant

Ganwyd Dewi Sant ym mhlwyf Henfynyw, Ceredigion tua diwedd y bumed ganrif, er fod union ddyddiad ei eni yn anhysbys. Dywedir ei fod o dras brenhinol. Roedd ei dad yn fab i Ceredig, tywysog Ceredigion, ac roedd ei fam Non yn ferch i bennaeth lleol. Mae pentref Llanon yng Ngheredigion wedi ei enwi ar ei hôl.

Wedi iddo gael ei fagu yng Ngheredigion, fe adawodd Dewi er mwyn mynd i astudio o dan Sant Illtyd yn Llanilltud Fawr. Yn fynach, abad ac esgob, tyfodd Dewi yn un o aelodau mwyaf dylanwadol Eglwys Geltaidd y cyfnod, gan ledu neges Cristnogaeth ymysg llwythau paganaidd Prydain.

Sefydlodd fynachdy yn y porthladd Rhufeinig 'Menevia' oedd wedi ei leoli yn Sir Benfro. Yn hwyrach daeth y lle hwn yn ddinas gadeiriol wedi henwi ar ôl Dewi.

Roedd y mynachod hyn yn dilyn trefn lem iawn - roedd Dewi yn llysieuwr a oedd yn rhoi pwyslais mawr ar waith corfforol.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym am Dewi ac mae llawer o'r hyn rydym ni yn ei wybod wedi ei ddylanwadu gan ddamcaniaeth a

chwedloniaeth. Ysgrifennwyd ei fywgraffiad cyntaf yn yr 11fed ganrif - bron i bum can mlynedd wedi ei farwolaeth - gan fynach o'r enw Rhigyfarch ap Sulien. Roedd yn fab i Esgob Tŷ Ddewi y cyfnod. Mae'r llyfr, 'Buchedd Dewi' yn honni fod Dewi wedi iachau dallineb ei athro St Paulinius a phan agorodd hwnnw ei lygaid, gwelodd Gennin Pedr am y tro cyntaf.

Mae Rhigyfarch hefyd yn cofnodi'r chwedl enwocaf sydd gennym am Dewi: roedd Dewi yn mynychu cyfarfod Synod Eglwysig pwysig yn Llanddewi Brefi ger Tregaron. Ymgasglodd torf anferth ger yr Eglwys leol ac roedd llawer yn cwyno nad oeddent yn gallu gweld na chlywed yr hyn oedd yn digwydd. Gosododd Dewi hances ar y llawr cyn sefyll arno. Yn sydyn, fe ddywedir, cododd bryn bach o dan ei draed gan ei godi hyd nes roedd pawb yn medru ei weld. Dywed rhai hefyd fod colomen wen wedi glanio ar ei ysgwydd, arwydd gan Dduw.

Un o athrawiaethau mwyaf adnabyddus Dewi yw y dylai pobl wneud "y pethau bychain".

Canoneiddiwyd Dewi ar Fawrth 1 1120, gan y Pab Callistus II, ac fe ychwanegwyd dyddiad ei farwolaeth i galendr yr Eglwys. Ers hynny mae wedi cael ei gydnabod fel Nawdd Sant Cymru. Cyhoeddodd y Pab Callistus II hefyd y byddai dau bererindod i Dŷ Ddewi yn cyfateb i un pererindod i Rhufain.

(Wedi copio o erthygl am Dewi Sant ar safle we'r BBC)

Grŵp Sgwrs a Pheint Manceinion

7-10 y nos, Nos Fawrth 2ail o Ebrill

The Briton's Protection

50 Bridgewater Street

Manceinion

Tri Dysgwr

Laurence Porter yw fy enw ac rwyf wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tua dwy flynedd. Paham Cymraeg? Cyd-ddigwyddiad pur. Euthum i gyngerdd o gorau Cymreig yn yr Albert Hall yn Llundain rhyw bedair neu bum mlynedd yn ôl, ac rwy'n cofio mwynhau gwrando ar anthem genedlaethol Cymru (Hen Wlad Fy Nhadau) ar y diwedd, a meddyliais "tybed beth yw ystyr y geiriau"? Yna rhyw ddwy flynedd yn ôl roeddwn mewn siop elusen yn Nottingham pan ddeuthum ar draws y llyfr "Teach Yourself Welsh" a meddyliais "Pam lai?" Felly prynais y llyfr a dyna ddechrau ar fy nhaith. Wrth lwc cwrddais â chymydog yn byw yn West Bridgford nes ymlaen a gyda'i gymorth rwy wedi llwyddo i wneud peth cynnydd, er gwaethaf hunllef y ferf 'bod' a'r treigliadau. Ac wrth gwrs rwy'n deall nawr beth roedd y dorf yn canu yn yr Albert Hall. Cyn hynny dysgais siarad Almaeneg yn rhugl; bûm yn byw yn yr Almaen am wyth mlynedd ar hugain ac Almaenes yw fy ngwraig. Roeddwn yn arfer gweithio fel peiriannydd meddalwedd a chyfrifiaduron ond rwyf wedi ymddeol yn awr.

Jacky Wynne yw fy enw i. Dechreuais ddysgu Cymraeg yn y gwanwyn llynedd am fod fy mab yn briod â Chymraes ac mae'r wyron yn siarad Cymraeg gartref ac yn yr ysgol. Rwy'n siarad Eidaleg a Ffrangeg a rhywfaint o Sbaeneg hefyd. Rwy wedi dod ymlaen yn y gwersi Cymraeg yn weddol dda mewn amser byr.

Rwy'n hoff iawn o gerdded yn y wlad ac yn mwynhau nofio bron bob dydd

Di Mathews yw fy enw i. Rwy'n hanu o Bontypwl yn ne Cymru ond nid oeddwn wedi dysgu 'r Gymraeg. Roeddwn i wastad yn dweud y bydden i'n dysgu ar ôl ymddeol. Yr wyf wedi bod yn aelod o Gymdeithas Cymry Nottingham am 15 mlynedd; yr wyf wedi bod yn mynychu'r cylch dysgu misol yn Derby. Rwyf hefyd yn cwrdd â Howell bob wythnos i gael sgwrsio yn Gymraeg ac rwy'n defnyddio Duo Lingo ar lein.

Mae dysgu'n galetach pan mae rhywun yn heneiddio ond rwy'n benderfynol o ddyfalbarhau, ac rwyf yn ddiolchgar fyth am y cymorth a'r anogaeth rwy'n cael yn y gymdeithas. Eleni bu fy ngŵr a minnau yn Awstralia a buom yn cysylltu yno ac aelodau Cymdeithas Cymry Melbourne.

Llys Rhosyr

Clywais gyntaf am fodolaeth Llys Rhosyr, un o lysoedd Llywelyn Fawr, tua saith mlynedd yn ôl. Roeddwn wedi treulio wythnos yn Ynys Môn ac wedi penderfynu ysgrifennu cerdd Saesneg amdano. Wrth ymchwilio hanes yr ynys, des ar draws cyfeiriad at Lys Rhosyr, a oedd wedi bod ar goll dan dywod ers canrifoedd. Unwaith imi ysgrifennu'r gerdd, fodd bynnag, diflannodd Llys

Rhosyr unwaith eto, y tro yma o dan dwyni tywod fy nghof - tan y llynedd!

Dyma ni yn ymweld ag Ynys Môn unwaith eto, yn gyrru trwy Niwbwrch yn ein cartref modur hynafol, ar y ffordd i barc carafanau ar yr arfordir gorllewinol, pan welais i'r geiriau hudol 'Llys Rhosyr' ar arwydd ffordd. Bu Pete, fy ngŵr, a oedd yn gyrru, yn agos at gael trawiad ar ei galon pan sgrechiais 'Llys Rhosyr' nerth fy mhen - ond addawodd fynd â mi yno ar y ffordd adref ymhen ychydig ddyddiau.

Cyrhaeddon ni'r safle hanesyddol ar ddiwrnod heulog ym Mis Mehefin. Roedd lleisiau bronfraith a mwyalchen yn cystadlu am sylw, nifer o adar bach yn gwibio o gwmpas yn y dail, a chrac penddu'r eithin a'i deulu'n yswitian yn y berth.

Nid oedd llawer o'r llys ar ôl, ond, trwy ddarllen yr arwyddion o gwmpas y safle, roedd yn bosibl i ddarganfod lleoliad y Neuadd Fawr, yr ystafelloedd gwely a'r ysguboriau. Treiais fy ngorau glas i daflu fy meddwl yn ôl wyth ganrif ac i geisio dychmygu 'ffair a ffwndwr' y gweithgareddau busnes a phleser a fyddai wedi mynd ymlaen yn gyson yno pan oedd y llys yn ei anterth, gyda Llywelyn Fawr ei hunan wrth y llyw. Ofer, am y rhan fwyaf, fu fy ymdrechion ond, serch hynny, roedd yn wefr i fod yno, ar safle hanesyddol mor bwysig i Gymru, ac i sefyll lle'r oedd Llywelyn Fawr ei hunan, yn ogystal â'i deulu, ei ddilynwyr a'i feirdd wedi sefyll, yn brofiad cofiadwy.

Rwy'n clywed bod cynllun i ail-lunio'r Neuadd Fawr yn Sain Ffagan. Bydd hynny'n sicr o sbarduno dychymyg diffygiol, heb sôn am roi esgus ardderchog arall imi fynd i aros gyda ffrind a chyn-gydweithwraig sydd wedi symud o Swydd Gaerwrangon, lle y buom yn gweithio gyda'n gilydd, i fyw yng Nghaerdydd.

Jenni Wyn Hyatt

Geirfa

Niwbwrch – Newborough

nerth fy mhen – at the top of my voice

addawodd – he promised

bronfraith – song thrush

mwyalchen – blackbird

gwibio o gwmpas – fluttering around

crec penddu'r eithin - stonechat

yn yswitian – twittering, chirping

ysguboriau – barns (storehouses)

fy ngorau glas – my level best

ffair a ffwndwr – hustle and bustle

yn ei anterth – in its heyday

wrth y llyw – at the helm, in charge

ail-lunio – re-create

sbarduno dychymyg diffygiol - stimulate a deficient imagination

cyn-gydweithwraig – ex-colleague (female)

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Mae'r Cylch yn cynnal Gweithdy Cymraeg misol yn Nhy Cwrdd Crynwyr, Stryd Sant Heledd, Derby ac Ysgol Undydd Flynyddol. Mae'na groeso i bawb, boed yn Gymry Cymraeg neu ddysgwyr.

Sadwrn 2-3-19 Gweithdy 9.30am -12.30pm

Sadwrn 13-4-19 Gweithdy 9.30am -12.30pm

Sadwrn 11-5-19 Gweithdy 9.30am - 12.30pm

Sadwrn 1-6-19 Gweithdy 9.30am - 12.30pm

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com

Llawysgrifau Peniarth ac ati

Cyfarchion i ddarllenwyr Llais y Derwent unwaith eto. Cyn mynd ymlaen gai ddweud nid wyf unrhyw fath o ysgolhaig ond mae gennyf ddiddordeb amaturaidd yn y casgliadau o hen lawysgrifau Cymraeg.

Rwyf yn "ysgrifennu" hyn o eiriau ar fy nghyfrifiadur gan fwrw'r allweddi ar y bysellfwrdd â dau fys - ni ddysgais i deipio yn drefnus ac yn gyflym erioed - ac wedi clic neu ddau bydd y darn wedi'i argraffu ar bapur, a hefyd mewn ychydig eiliadau wedi'i ddanfon i'r golygydd yn ddigidol dros y we.

Mor wahanol oedd y broses o "ysgrifennu" yn y Canol Oesoedd. I mi mae 'na dipyn o ramant yn perthyn i'r hen lawysgrifau; mae eu henwau hyd yn oed yn codi diddordeb ynof, enwau megis Llawysgrifau Peniarth, Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Coch Hergest ac yn y blaen. Na, nid pethau sych ac anniddorol ydynt i mi.

Mae'r ddelwedd o fynach mewn abaty neu fynachlog, yn plygu dros y memrwn a chwilsen ŵydd neu gwilsen alarch yn ei law, ac yn ysgrifennu yn araf ac yn fwriadol, yn un rhamantaidd ar yr olwg gyntaf; ond mwy na thebyg y realiti oedd bod y gwaith yn flinedig ac yn undonog. Crwyn anifeiliaid, sef memrwn, neu vellum neu parchment yn Saesneg, oedd y defnydd a 'sgrifennwyd arno, a gwnaethpwyd yr inc allan o rhyw cymysgedd yn cynnwys pren deri ac ocsid haearn. Wrth gwrs, mewn amser, daeth papur yn ei flaen i ddisodli memrwn a hefyd daeth argraffu yn fecanyddol hefyd. Collwyd cannoedd o lawysgrifau dros y canrifoedd am wahanol resymau. Dinistriwyd rhai gan dân a hefyd bu llygod yn prysur ddinistrio rhai eraill drwy esgeulustod y perchnogion. Ond diolch byth mae swm sylweddol wedi goroesi.

Rwyf am ganolbwyntio yma ar Lawysgrifau Peniarth. Casgliad canoloesol ydyw o wahanol ddogfennau ar femrwn a rhai wedi eu rhwymo yn daclus. Syr Robert Vaughan (bu farw 1667) oedd y cyntaf i ddod a'r casgliad at ei gilydd yn Hengwrt, Sir Feirionydd. Plasty oedd Hengwrt sydd wedi diflannu erbyn heddiw. Mewn amser daeth y casgliad i ddwylo perchennog plasty arall, sef plasty Peniarth yn Llanegryn nepell o Dywyn (Meirioneth) a dyna paham iddynt gael yr enw Llawysgrifau Peniarth; gyda llaw pan oeddem yn blant roedd fy mrawd fy chwaer a minnau yn mynd ar ein gwyliau i Lanegryn bob Awst i aros gyda fy ewythr a fy modryb a oedd yn byw yno; roeddent hwy yn byw o fewn milltir neu ddwy o Beniarth ond nid wyf yn cofio gweld yr adeilad ac wrth gwrs nid oedd gennyf wybodaeth am lawysgrifau a phethau o'r fath pryd hynny. Ymhlith y casgliad mae Llyfr Du Caerfyrddin, testun "Pedair Cainc y Mabinogion," a thestun cynnar iawn o "Cyfraith Hywel Dda" a gwaith nifer o feirdd cynnar yn ysgrifennu yn Gymraeg. Er mae llawysgrifau Cymraeg yw'r rhan fwyaf ohonynt mae 'na rhai o lawysgrifau Lladin, Hen Gernyweg a Saesneg hefyd; er enghraifft mae 'na destun cynnar (efallai'r cynharaf oll) o'r Canterbury Tales gan Geoffrey Chaucer. Prin iawn yw darluniau yn y llawysgrifau Cymraeg ond y mae ambell i un hwnt nac yma. Ar ôl sawl cenhedlaeth gwerthwyd y casgliad gan William Wynne o Beniarth i Syr John Williams ym 1898. Pan gafwyd cynllun i sefydlu llyfrgell genedlaethol i Gymru addawodd Syr John y byddai'n cyflwyno ei lyfrgell werthfawr, yn cynnwys Llawysgrifau Peniarth, iddi ar yr amod fod y llyfrgell yn cael ei lleoli yn Aberystwyth; ac felly y bu, a dyna un rheswm paham mae'r llyfrgell yn Aberystwyth ac nid yn y brifddinas. Ar hyn o bryd mae'r holl gasgliad yn cael ei ddigideiddio.

Y tro nesa y byddwch yn Waterstones neu unrhyw siop lyfrau yn prynu nofel clawdd papur, sbariwch eiliad fach i feddwl am yr hen fynaich a fuont mor llafurus yn eu dydd i drosglwyddo 'r ysgrifeniadau pwysig nes bod pobl heddiw (boed ysgolheigion neu bwy bynnag) yn gallu gwerthfawrogi cynnyrch llenyddol ein cyndeidiau.

Howell Price

West Bridgford

Geirfa

ysgolhaig > scholar; bysellfwrdd > keyboard; llawysgrif {LLS} > manuscript {MSS}, mynach {ll. mynaich neu mynachod} > monk; cwilsen > quill; ocsid haearn > iron oxide; disodli > replace; goroesi > survive 'til the present time; canolbwyntio > concentrate; perchennog > owner; nepell o > not far from; o fewn > within; testun > text; Cernyweg > Cornish (lang.); llafurus > hardworking; ar yr amod > on the condition that; cyndeidiau > ancestors.



Adolygiad Llyfr Glas Nebo

Roedd darllen "Llyfr Glas Nebo" yn bleser, oherwydd bachau storïol sy'n cynnal diddordeb (ac mae'n eithaf addas i ddysgwyr oherwydd ei hyd byr a symlrwydd cymharol ei iaith). Pam, felly, oeddwn i mor siomedig ac anfodlon wrth gyrraedd y diwedd?

Enillodd y nofel y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol 2018 - cystadleuaeth "Ynni" ei thestun, a 40,000 ei chyfyngiad geiriau. Wrth gyfeirio at y testun, mae'n amlwg bod yr awdures yn poeni am beryglon ynni niwclear: mae'r llyfr yn adrodd sut mae Rowenna a'i mab ifanc Siôn yn goroesi caledi trychineb niwclear ym mhentrefan rhwng Caernarfon a Phorthmadog. Ond mae'r neges bod damwain niwclear yn bris rhy uchel i dalu am ynni yn cael ei danseilio'n ddifrifol. Does dim eglurdeb o ran tarddiad yr alldafliad niwclear - mae amryw darddiadau posibl yn cael eu sôn (gan gynnwys atomfa'r Wylfa). Ar ben hynny, er gwaethaf erchyllter y sefyllfa Rowenna a Siôn, mae amryw sylweddau beirniadol eu ffordd o fyw blaenorol, llawn o bethau dibwys. Mewn cymhariaeth, mae eu sefyllfa bresennol yn cael ei chyflwyno yn gyfle i fywyd o foddhad mwy, a thyfiad seicolegol ac ysbrydol. Mae Siôn yn dod yn grefyddol, a Rowenna yn datblygu hyder a chryfder mewnol. Hyd yn oed mae safon ei Chymraeg yn gwella!

Wrth gwrs, mae teitl y llyfr yn gwneud cysylltiad echblyg â thrysorau o lenyddiaeth Gymraeg o'r fath fel Llyfr Coch Hergest, ac efallai bod angen darllen "Llyfr Glas Nebo" fel chwedl yn hytrach na nofel realistig. Yn sicr, mae elfennau chwedlonol ynddo - megis sgwarnog â dau wyneb, mab â chryfder y tu hwnt ei oed, dynes "heb rieni", a merch wedi geni (mae'n ymddangos i Siôn) heb weithred rywiol.

Y "llyfr glas" ei hun ydy llyfr nodiadau rhannwyd gan Siôn a'i fam er mwyn ysgrifennu ynddo chofion y gorffennol Rowenna a sylwebaeth Siôn ar y presennol. Yn arwyddocaol, mae'r ddau yn addo ei gilydd na fyddan nhw byth darllen beth mae'r arall yn ysgrifennu (adlewyrchiad rhagor o'r llwon a gwaharddiadau sy'n ddyfeisiau pwysig mewn chwedlau). Rhan fwyaf anfoddhaol y llyfr i mi ydy hyn. Dydy'r rheswm am yr addewid ddim yn eglur - a pham na ddoedd dim mwy o bapur gwag ar gael yn y pentre', sydd yn llawn o bethau gadawyd gan bobl wedi marw?

Yn wir, does dim esboniad am ormod yn "Llyfr Glas Nebo". Mae Siôn yn dweud o ran yr addewid "jyst rhag ofn. Rhag ofn be, dw i ddim yn siŵr". Drosodd a throsodd mae mam a mab methu cyfathrebu am resymau sy'n cael eu hysgubo o'r neilltu fel hyn. Mae hyn yn teimlo fel ysgrifeniad ddiog neu frys, ac efallai ei bod hi'n frys - dywedodd yr awdures na orffennodd hi mo'r gwaith nes agosáu dyddiad cau'r gystadleuaeth.

Ar ôl ailddarllen y nofel ("nofela" mewn gwirionedd), dw i'n dymuno mai heb bwysau a chyfyngau'r gystadleuaeth roedd Manon Steffan Ros wedi ei ysgrifennu, a chymryd mwy o le ac amser i ddatblygu'r themâu yn llawnach.

Cath Platt
Uttoxeter

Cymdeithas Cymry
Nottingham 2019

Fri 1st March Cinio Dewi Sant
St David's Day Dinner
Wed 10th Apr Jane Williams.
"From Valleys to the Vetch."
A Welsh soccer story
Wed 8th May A.G.M.
Meetings are usually held at
St. Andrews with Castle Gate URC.

Thomas Charles Y Bala (1755 - 1814)

Roedd ‘na ddau CHARLES yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif; Un yn Glerigwr yn Bala; a’r llall yn weinidog yng Nghaerfyrddin. Sôn byddaf y tro hwn am y cyntaf, ac efallai am y llall ar ryw dro arall.

Er mae clerigwr gydag Eglwys Loegr ydoedd yn ei ddyddiau cynnar ond o natur yn fethodus brwd hefyd yn hwyrach y daeth yn arweinydd gyda’r Methodistiaid Calfinaidd.

Ar un adeg yn ei yrfa tariwyd ef ag afiechyd difrifol lle ofnwyd am ei fywyd, a threfnwyd cyfarfod gweddi. Yn ystod y gweddïau tarodd un hen frawd weddi ddwy s o’r galon gan grefu ar yr Arglwydd i ychwanegu pymtheg mlynedd ychwanegol iddo, fel yn hanes hen Frenin Israel o’r enw Heseceia, Ac felly y bu, er ni ddefnyddiodd y brenin ei amser yn broffidiol lawn. Pan glywodd Thomas Charles hanes gweddi’r hen frawd fe effeithiodd hyn arno yn fawr iawn, ac fe ymroddodd ei hunan i waith yr Efengyl hyd yn oed yn fwy diwyd nag o’r blaen. Yn yr adeg hon cerddodd Mari Jones o’i chartref ger Abergynolwyn i dy’r Parchedig Thomas Charles yn y Bala ar ôl iddi godi’r arian i brynu Beibl Cymraeg iddi hi ei hunan gael ei ddarllen. Dim un yn sbâr ganddo. Dyma son am hyn wrth y bonheddwr William Wilberforce, ac yntau yn cytuno ei gynorthwyo a dweud “if for Wales why not for the whole world”. A dyma’r ysbardun angenrheidiol i ddechrau’r ‘British and Foreign Bible Society’, sydd mor bwysig erbyn hyn fel ‘Y Bible Society’. Mae ‘Cymdeithas y Beibl’ erbyn hyn yn cyhoeddi'r Beibl neu rannau ohono mewn nifer o ieithoedd i dros 200 gwlad fynd eang, sy’n cynnwys i drosiad diweddaraf yn y Gymraeg dan yr enw ‘beibl.net’, ar gael mewn print, o’r Sain ar y We.

Bu’n gyfrifol hefyd am ddatblygu a lledi gwaith Ysgolion Sul yn fawr iawn drwy Gymru a pharatoi Holwyddoreg drylwyr ac addas i blant. Clywyd a gwelwyd ef yn aml yn pregethi a holi drwy’r wlad. Tua diwedd y pymthegfed flynedd ychwanegol yr oedd yn gwasanaethu yn y De, a gwrthododd gymryd cyhoeddiad pellach yno, a’r flwyddyn ganlynol fe’i galwyd adre, ei waith wedi’i gwblhau!

Gwynne Davies
Nottingham

Gweler yr Hanes yma yn y trosiad diweddar i’r Saesneg gan John Aaron o’r gwreiddiol yn Gymraeg, - ‘Y Tadau Methodistaidd’,1890 gan John Morgan Jones, sef ‘The Calvinistic Methodist Fathers of Wales’ Vol 2. by J.M.Jones, Banner of Truth Press, 2008.

GEIRFA

Clerigwr - Cleric
Gweinidog - minister
Gyrfa - Career
Afiechyd difrifol - Serious illness.
Weddi ddwys - Touching prayer
Diwyd - Faithfully.
Ysbardyn - Spur
Angenrheidiol - Essential.
Holwyddoreg drylwyr - Complete Catechism
Proffidiol - Profitable
Addas - Appropriate.
Ychwanegol - Additional
Cyhoeddiad - Invitation.
Cwblhau - Complete

Y Llwynog

Ganllath o gopa’r mynydd, pan oedd clych
Eglwysi’r llethrau’n gwahodd tua’r llan,
Ac anhreuliedig haul Gorffennaf gwych
Yn gwahodd tua’r mynydd, - yn y fan,
Ar ddiarwybod droed a distaw duth,
Llwybreiddiodd ei ryfeddod prin o’n blaen;
Ninnau heb ysgog a heb ynom chwyth
Barlyswyd ennyd, megis trindod faen

Y safem, pan ar ganol diofal gam
Syfrdan y safodd yntau, ac uwchlaw
Ei untroed oediog dwy sefydlog fflam
Ei lygaid arnom. Yna heb frys na braw
Lliithrodd ei flewyn cringoch dros y grib;
Digwyddodd, darfu, megis seren wib.

R Williams Parry

Mam

Un o'r crachach oedd Mam, a dweud y gwir yn blaen! Roedd ei thad yn rheolwr ifanc glofa a enwir 'The Great Western', ar lan afon Rhondda ger Pontypridd. Roedd ei thad-cu yn rheolwr glofa a enwir Tŷ Mawr, un o'r glofeydd mwyaf yr ardal, yn ddyn cyfoethog, yn bregethwr lleyg a pherchennog rhyw bedwar deg o dai glowyr cyffredin. Roedd Mam yn cael ei magu mewn Ty'n addas i reolwr pwll glo, tŷ gyda golau trydanol, a hyd yn oed tapiau dwr poeth!

Un o'r gwrêng oedd fy nhad, un o'r bobl gyffredin, yn rhentu fferm fach rhyw bum deg o aceri ac yn byw ar y fferm. Roedd ei dad, fy nhad-cu, yn löwr ac yn gweithio dan ddaear gyda chaib a rhaw am dri deg chwech o flynyddoedd cyn gadael y pwll glo ac yn rhentu'r fferm.

Ond rhyfedd sôn dyma fy nhad a fy mam yn cwympo mewn cariad ac eisiau priodi, y dyn ifanc dosbarth gweithiol ar y naill llaw, a merch ddosbarth canol ar y llaw arall. Ond dim ond pedair ar bymtheg oed oedd Mam ac yn gorfod cael caniatâd rhieniol i briodi. Er gwaethaf anfodlonrwydd ei mam, ac meddai hi,

" Nad oeddwn i'n dy fagu di i briodi ffermwr gwerinol!" Ond roedd Mam yn benderfynol, ac wedi cael gwneud fel y mynnai hi.

Ond sut aflwydd oedd Mam yn ymdopi gyda'r newid yn ei bywyd? Yn lle byw mewn tŷ crand trefol, cyfleus a chyffyrddus roedd hi'n byw mewn hen ffermdy anghysbell, anghysurus, llaith ac oer. Yn lle stôf nwy trefol roedd rhaid iddi hi goginio ar dân glo agored; yn lle golau trydanol roedd llusern paraffin; yn lle troi tap roedd rhaid cario dŵr o'r ffynnon i fyny llwybr pum deg llath gyda grisiau maen yma a thraw.

Ond wrth gwrs roedd Mam yn wraig fferm, felly yn ogystal â'r gwaith tŷ i gyd, roedd hen ddigon o waith fferm i'w wneud, gan gynnwys cadw cannoedd o ieir a gwerthu wyau, lladd ceiliogod a hen ieir a'u paratoi nhw yn barod i'r ffwrn, llaw godro pump o fuchod yn cychwyn hanner awr wedi chwech y bore a hanner awr wedi pedwar y prynhawn bob dydd o'r wythnos.

Sut oedd hi'n ymdopi gyda hyn oll tan ymddeolodd fy nhad yn chwe deg pump oed? Dyn a ŵyr, wn i ddim!

John Vivian Harris

West Bridgford

Geirfa:-

a dweud y gwir yn blaen - to put it bluntly

ond rhyfedd sôn - but strange to say

caniatâd rhieniol i briodi -parental permission to marry

er gwaethaf anfodlonrwydd ei mam - in spite of her mother's unwillingness

ffermwr gwerinol - a peasant farmer

sut aflwydd - how on earth

yma a thraw - here and there

roedd hen ddigon o waith fferm i'w wneud - there was more than enough farm work to do

dyn a wyr - (used rhetorically)who knows!

wn i ddim! - I don't!

Mwy am y Sul Cymreig

Rydw i wedi darganfod mwy o arferion a gwaharddiadau y Sabath ers anfon yr erthygl olaf i Lais Y Derwent.

Doedd pobl ddim yn paratoi llysiau ar gyfer cinio, ac yn gwneud hynny ar nos Sadwrn. Roedd yn bwysig bod y ty yn cael ei lanhau ar y Sadwrn hefyd gan mai pechod oedd golchi llawr a dystio ar ddydd yr Arglwydd.

Nos Sadwrn oedd noson bath i ni'r plant pan oedd twb mawr yn cael ei osod o flaen y tân, a'r naill un ar ôl y llall yn cael trochfa ynddo, gan ddechre hefo'r plentyn glanaf! Doedd dim son am ddwr poeth yn y cartref a rhaid oedd cario pob diferyn mewn bwcedi a'i gynhesu mewn tegell anferth yn crogi uwch tân agored.

Roedd dynion yn eillio ar nos Sadwrn gan bod hynny yn bechod ar y Sul.

Doedd plant ddim i fod yn swnllyd yn cadw reiat tu allan. Roedd hanes am blentyn bach yn chware pel tu allan i'r ty, a'i fam yn ei hel o i chware yn y cefn, a'r plentyn yn dweud, 'Diolch na dydy hi ddim yn ddydd Sul yn y cefn.'

Mae Viv yn cofio nad oedd o ddim i fod i fynd allan i chware ar y fferm, ac roedd ganddo fo ofn i Dduw ddod rownd y gornel a'i ddal o. A felly Ysgol Sul a moddion gras oedd lle plant hefo'u rhieni.

Roeddwn i'n byw ar dyddyn ddwy filltr o ysgol ac eglwys Llannefydd, yn deulu o chwech. Ar ôl i Dad a Mam odro yn y bore, tra fyddwn i yn newid i ddillad gore, (dillad dydd Sul), a gwisgo fy chwaer fach Gwen oedd yn dair oed, a goruchwylio fy chwaer Dilys oedd yn saith, roedd Bob fy mrawd yn ddeuddeg oed yn bwydo'r ieir, y moch a'r lloi, a wedyn bydden ni i gyd yn mynd i'r gwasanaeth yn yr eglwys erbyn hanner awr wedi deg.

Dad ar ei feic a Bob yn cael reid drwy roi un penglin ar mudguard yr olwyn ôl a blaen ei droed arall ar yr echel. Wedyn bydde Mam ar ei beic 'sit up and beg', gyda Dilys yn eistedd ar rhyw fath o

sedd ar ben yr olwyn ôl. Fi, yn dair-ar-ddeg oed, oedd yr olaf ar feic Bob, ac roedd hen sedd beic wedi ei gosod ar y crossbar, ac ar honno yr oedd Gwen yn eistedd.

Adre erbyn tua hanner dydd am ginio ond roedd rhaid i ni'r plant newid ein dillad cyn cinio rhag ofn i ni eu baeddu nhw, ac ail wisgo nhw wedyn i fynd i'r Ysgol Sul am ddau yn y prynhawn! Dilyn yr un drefn cyn cael te prynhawn, cyn gwisgo'r dillad gore am y drydedd waith i fynd i'r eglwys am chwech yr hwyr! Dim ond salwch oedd yn ein cadw rhag mynd i foddion gras.

Roedd te Sul ychydig yn well na'r arfer a bydden ni weithiau yn cael tun o eirin gwlanog ac Ideal Milk ar ei ben o. Jeli, a siwr bod cacen ar gael hefyd.

Doedd neb yn chware cardie na Monopoly chwaith, ond am rhyw reswm nas gwn i, roedd chware Lexington yn iawn. Pam tybed?

Roedd pobl yn nol papur ar y Sul am ei fod o wedi ei brintio y noson gynt, ond doedd o ddim yn cael ei ddarllen tan ddydd Llun. Fydde plant ddim yn cael darllen llyfrau storiau chwaith ar wahan i 'Drysorfa'r Plant.' Roedd hwnnw yn fisolyn os ydw i'n cofio'n iawn oedd plant capel yn ei dderbyn, ond wrth gwrs doedden ni ddim mor lwcus!

Roedd brawd Catrin yn gwaredu bod ei gwr hi yn gweithio yn aml iawn ar y Sul, er mai llaw-feddyg oedd o!

Roedd yna ddyn yn cofio cael ffrae gan ei daid am gerdded a'i ddwylo yn ei boced ar y Sul, ac i wneud pethau'n waeth, roedd o'n chwibannu hefyd!

Ond rhyfedd o beth, roedd plant yn cael gwneud eu gwaith cartref yn ddi-ffwdan. Byddai rhai yn ei ohirio tan nos Sul i arbed mynd i'r capel.

Pan oedd y gyfres 'Forsyte Saga' ar y teledu, bu rhaid i sawl addoldy newid amser yr oedfa hwyrol er mwyn i'r gynulleidfa gael cyrraedd eu setiau teledu mewn da bryd! Felly rhaid bod arferion wedi llacio dipyn erbyn hynny.

Roedd peth euogrwydd gan rai oedd ddim yn mynychu'r oedfa mor aml, a bydden nhw yn cadw yn y ty pan oedd hi'n amser mynd i'r capel rhag i'r selogion eu gweld nhw.

Tybed a'i dim ond yng Nghymru oedd hyn yn digwydd? Cymru oedd y wlad mwyaf crefyddol yn y byd ar un adeg, ond darllenais i yn ddiweddar mai Cymru ydy'r wlad mwyaf di-grefydd erbyn heddiw, ar wahan i Siapan: hynny yw, os ydy ystadegau i'w coelio.

Enid Davies

Eglwysbach

Geirfa

naill un ar ôl y llall – one after the other

mewn da bryd – in good time

rhyfedd o beth – strang to say

rhyw reswm nas gwn i – I don't know why

Catherine Roberts

Dyma hanes Catherine Roberts fy ngorhennain (nain fy nhaid Henry Arthur Jones). Cafodd hi ei geni ym mhlwyf Llanbeblig yng ngogledd orllewin Cymru, merch Richard a Catherine Davies. Yn 1809, fe'i bedyddiwyd yn eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Roedd Richard yn labrwr, ond yn ddiweddarach daeth yn chwarelwr.

Yn 1829 priododd Catherine â Hugh Roberts yn Eglwys Llanbeblig. Ganwyd mab iddynt, Richard, a fu farw yn 1834 (4 oed) a chladdwyd ef ym mynwent eglwys St Garmon, Betws Garmon, lleoliad hardd rŵan yn union nesaf i Barc Cenedlaethol Eryri. Erbyn hynny roedden nhw'n byw mewn tŷ o'r enw 'Ffridd' ger pentref Deiniolen (yna o'r enw Ebenezer). Digwyddodd drasiedi gwaeth iddynt ym mis Mehefin 1840. Roedd ganddynt hwy dri o blant arall sef, Elinor (8 oed), Cathrine (6 oed) ac ail Richard (4 oed); ond bu farw'r tri o dwymyn goch mewn naw diwrnod. Fe'u claddwyd gyda'r cyntaf anedig Richard.

Mae'r cofnod claddu yn Eglwys Sant Garmon yn dangos bod, o'r trideg un o bobl a gladdwyd rhwng mis Ebrill 1840 a Chwefror 1841, yn

cynnwys dau ddeg un o blant wyth mlwydd oed neu iau wedi marw o dwymyn goch. Bu llawer o blant a fu farw o'r clefyd hwn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dangos diffyg maeth yn ystod beichiogrwydd y fam, ffactor pwysig yn ystod y cyfnod dilynol. Pan ostyngodd pris gwenith ar ôl 1880, aeth y nifer o achosion angheuol o'r dwymyn goch i lawr.

Parhaodd Catherine a Hugh i fyw yn Fridd a ganwyd iddynt dri phlentyn arall: Ellen (ganed 1842), ail ferch Catherine (fy nain wych, ganed 1843 ac a ddaeth yn Catherine Jones) a Hugh (ganed 1848). Yna digwyddodd trychineb arall. Yn 1850, pan oedd ond 45 oed, bu farw Hugh o dwbercwlosis a chladdwyd ef gyda'r plant a fu farw cynt. Daeth Catherine yn weddw gyda thri o blant



ifanc i ofalu amdanyn nhw.

Ar ôl hynny, nid oedd mwy o drychinebau. Mi aeth Catherine iau, fy hen nain, i'r ysgol ac yn wahanol i'w mam dysgodd i ddarllen ac i ysgrifennu. Yn 1855, yn eglwys Llanddeiniolen, priododd Catherine a dyn oedd tua thair blynedd ar ddeg yn iau na hi: Henry Roberts, chwarelwr o Waunfawr a brawd iau ei gwr cyntaf hi. Disgrifir hi fel ffermwr ar y dystysgrif briodas. Efallai bod hi'n ffermio rhai erwau o dir ger Deiniolen (yna o'r enw Ebenezer). Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yn anghyfreithlon priodi brawd yng nghyfraith. Tybed a dyna pam y defnyddiodd hi'r enw 'Catherine' Pritchard ar gyfer y briodas 'ma.

Yn 1861 roedd Catherine yn dal i fyw yn Ffridd ac roedd Henry, Ellen a Hugh efo hi. Wn i ddim ble roedd fy hen nain, deunaw oed - efallai ei bod wedi gadael y cartref ac wedi mynd i fynd i weini. Erbyn 1871 roedd Catherine a Henry yn byw ym Mryngoleu, Waunfawr, lle roedd hi'n byw am weddill ei hoes hi. Bu hi'n pasio ei deng mlynedd a thrigain a bu farw yn 72 oed ym 1881. Mae hi wedi ei chladdu yn Eglwys Sant Garmon yn yr un bedd â'i dau ŵr a'i phedwar o blant cyntaf.

Dwi'n hapus o gael yr anrhydedd o fod o linach Catherine.

Tim Jones

Swydd Stafford

(Diolch i June Jones ac Elin Heron am eu help)

Geirfa

brawd yng nghyfraith - brother-in-law

cael yr anrhydedd- to have the honour

Corhennain - great great grandmother

Chwarelwr - quarryman

gweddill ei hoes hi - rest of her life

gweddw - widow

gweini - to be in service

hen nain - great grandmother

o linach - a descendant of

Parc Cenedlaethol Eryri - Snowdonia National Park

pedwaredd ganrif ar bymtheg

- nineteenth century

trigain - threescore, sixty

twymyn goch - scarlet fever

Cerddwyr Canolbarth Lloegr

Grŵp Weplyfyr ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr sy eisiau cwrdd i gerdded yn Ardal y Peac

ac i siarad Cymraeg



Y Goeden Arian

I'r rhai sy wedi bod yn darllen 'Llais y Derwent' yn gyson dros y misoedd diwetha, mae patrwn wedi dangos ei hun ynglyn a'r hyn dw i'n ei ysgrifennu. Ie, 'coed'. Dw i wedi dewis coed cyffredin hefyd. Coed dyn ni wedi mynd yn gyfarwydd iawn a nhw. Gobeithio fy mod i wedi dangos pa mor ddiddorol a bendigedig ydyn nhw ac efallai'ch bod chi wedi dysgu rhywbeth amdanynt!

Y goeden dan sylw y tro 'ma ydy 'Betula pendula', i roi ei henw Lladin. I'r rhan fwyaf ohonon ni, 'bedwen arian' ('silver birch' yn y Saesneg) ydy'r enw mwy cyfarwydd. Tasech chi'n gadael cae a pheidio a phori gwartheg neu ddefaid arno na thyfu cynydau, o fewn blwyddyn, y coeden gyntaf y byddech chi'n ei gweld yn tyfu fyddai bedwen arian. 'Coedwig eilaidd' ydy'r enw am goedwig sy'n ffurfio yn y ffordd hon. Bydd hi'n 'goresgyn' coedwigoedd ar ol i goed eraill gael eu torri. Yng Nghymru, torrwyd conwydd yng Nghoed Dyfodol Sarnau ger Sarnau ym 1999. Mae bedw arian yn goruchafu'r ardal erbyn hyn. Ers 1800, mae ardal yr un faint a Phrydain wedi troi'n goedwig eilraidd yn America. Mae hyn yn digwydd yn araf dros amser a heb 'gymorth' gan bobl. Felly, mae'n fordd dda o greu coedwig newydd, er bod y peth ffasiynol i'w wneud ydy plannu coed. Mae rhoi llonydd ac amser i natur i wneud y gorchwyl ei hun yn fwy naturiol ac yn aml, ni fydd yn costio dim byd.

Dyn ni i gyd yn gyfarwydd a'r rhisgl arian a'r cynffonnau wyn bach sy'n ymddangos ym mis Ebrill neu fis Mai. Ymddangoson nhw ym mis rhagfyr a mis Ionawr mewn mannau y tro 'ma a dedlir mai un arwydd o newid hinsawdd ydy hwn. Mae'r fedwen arian yn fonoecaidd sy'n golygu bod blodau gwrywaidd a benywaidd yn ffurfio ar un goeden. Mae'r cynffonnau wyn bach gwrywaidd yn hir a brown neu felyn. Byr a gwyrdd llachar ydy'r rhai benywaidd. Yn sgil peilliad, mae'r cynffonnau wyn bach benywaidd yn troi'n goch tywyll ac yn yr hydref, mae llawer o hadau'n gael eu cario a'u gwasgaru gan y gwynt.

Ar ol i'r Oes Ia diwetha ddod i ben tua 12000 o flynyddoedd yn ol, roedd y goeden hon ymhlith y coed cyntaf i ailsefydlu eu hunain yng ngogledd Prydain eto. Tua 5000 o flynyddoedd yn ol, y goeden fwyaf cyffredin yng ngogledd yr Alban oedd y fedwen arian. Er gwaethaf ei chyffredinrwydd, dydy'r fedwen arian ddim yn goddef cysgod a dim ond mewn mannu agored fydd hi'n tyfu. Er mwyn cyrraedd y golau, mae rhai coed yn tyfu at 30 o droedfeddi, er na fydd llawer o goed yn mynd yn hyn na 80 mlwydd oed. Mae gan y fedwen arian ganopi agored ac mae hynny'n creu awyrgylch delfrydol ar gyfer amrywiaeth o weiriau, mwsoglau, a phlahigion fel clychau'r gog, suran y coed, blodyn y gwynt a'r fioled gyffredin. Hefyd mae'n darparu cynefin a bwyd ar gyfer dros 300 o rywogaethau o bryfed. Efallai'ch bod chi wedi sylwi ar y ffyngau sy'n tyfu ar foncyff y fedwen arian. Coeden dda ar gyfer ffyngau ac mae'n cefnogi rhywogaethau fel amanita'r gwybed, siantrel, cap llaeth gwlanog a chap tyllog melyngoch y bedw. Mae cnocellod y coed yn hoff o nythu ym moncyff y fedwen arian ac mae hadau'r goeden yn boblogaidd efo'r pila gwyrdd, y llinos werdd, a'r llinos bengoch.

Ym mytholeg Geltaidd, symbol o adnewyddiad a phurdeb oedd y fedwen arian. Cesglid brigau'r goeden a fe'u defnyddid i yrru ysbrydion yr hen flwyddyn ymaith. Yn ucheldiroedd yr Alban, dwedir y byddai myswynog yn mynd yn ffrwythlon tasai hi wedi cael ei thyrru efo ffon fedw.

Mae rhisgl y goeden yn cael ei ddefnyddio i farcio lledr ac mae'n ddefnydd addas ar gyfer dodrefn, handlenni a theganau. Defnyddid y pren i wneud riliau a bobiniau ar gyfer diwydiant cotwm swydd Gaerhirfryn. Yng ngogledd Ewrop, mae'r goeden yn cael ei thyfu i wneud mwydion. Yn y gwanwyn, mae llawer o sudd yn codi i fyny'r boncyff a gellir ei dynnu a'i ddefnyddio yn yr un ffordd a syryp y fasarnen.

Gobeithio'ch bod chi wedi dysgu un neu ddau beth newydd am y goeden hon ac er ei bod hi'n tyfu mewn llawer o fannau, efallai y edrychwch arni mewn fford wahanol o hyn ymlaen!

Martin Coleman

Clay Cross

Llongyfarchiadau mawr i Martin Coleman am ennill cystadleuaeth stori fer yn Eisteddfod Trawsfynydd yn ddiweddar. Erbyn hyn mae Martin wedi ennill mewn 3 Eisteddfod Leol. Gobeithio cawn ni weld casgliad o storiâu Martin yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol. Mae angen mwy o ddysgwyr i gystadlu mewn Eisteddfodau lleol.

Y dyfodol

Yn y dyfodol….dwy wedi bod yn meddwl am y pwnc ers cyhoeddiad rhifyn diwethaf *Llais Y Derwent*. Y prif reswm oedd y cais gan Jonathan am erthygl newydd 'cyn y Pasg'. Dyma fi heb ddechrau, ond wedyn daeth dyddiad terfyn newydd a gyda dim ond tri diwrnod cyn i'r arolygydd yn disgwyl cyfraniad caboledig (dim siawns!).

Mae'na lawer o ddiddordebau gan ddarllenwyr Llais Y Derwent ond mae'r iaith Cymraeg yn ganolog. Mae pobol wedi cyfrannu erthyglau hanesyddol i 'Lais' sy wedi rhoi cipolwg o fywyd cyffredin Cymreig. Mae'r gorffennol yn gallu rhoi sylfaen cryf i ddatblygu amgylchiadau cynaliadwy.

Tra myfyrio am y dyfodol, meddyliais am y cysylltiad cyfrannol - sef y Gymraeg. Os ydych yn ddysgwr sydd yn poeni am ddefnyddio'r treigliad cywir, neu'n pryderi dros genedl geiriau fel *y gadair* a'r *bwrdd*, peidiwch â phoeni. Mae'na ddigon a mwy o Gymry sydd wedi anghofio am reolau'r iaith, hynny yw os oeddent nhw wedi talu sylw yn y lle cyntaf! Mae rheolau yn bwysig, ond yn aml maen nhw yn rhoi dim ond canllawiau. Mae cysylltiad llawer o ddysgwyr i Gymru wedi codi o ymweliadau, gwyliau braf fel plant, neu gwrdd â pherthnasau ar ôl ymfudant rieni 'dros y Clawdd'. Mae'n debyg bod yr atgofion o weithgareddau yn hapus. Digon hapus i moyn parhau mewn cysylltiad. Dyma ran o gyfraniad i ddyfodol Cymry Cymraeg.

Mae'na lawer o ansicrwydd yn y Dyrnes Unedig ar hyn o bryd. Does dim un syniad fydd yn datrys y problemau i gyd (fydd yr arolygydd yn croesawu unrhyw gyfraniad ar y pwnc!).

I ddod 'nol i'r Gymraeg, mae 'na gysur yn benderfyniad pobol i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i le bach yn y byd (an area the size of Wales - dyna'r prif ymadrodd byd-eang am Gymru pan mae rhyw newyddiadurwyr yn edrych am ryw gymhariaeth ddaearyddol). Gwlad ble mae'n bosib i fwynhau celfyddydau, crefftau a gweithgareddau hamdden ac adloniant, gyda phobol sydd yn bwysig i chi. Dyna'r dyfodol, trwy ei ddefnyddio bydd yr iaith yn parhau.

Cadwch ffydd! (Os ydych chi wedi nodi ambell wall yn y treigliadau, fydd yr arolygydd wrth ei bodd).

Dafydd Phillips

Geirfa

Caboledig - polished

Cynaliadwy - sustainable

Rhoi canllaw - to guide

Dros y Clawdd - over the (Offa's) dyke

Gweithgareddau - activities

Datrys - solve

Breuddwyd Od

Breuddwyd Ychydig o nosweithiau yn ôl mi ges i freuddwyd od iawn. Efallai roedd mwy i'r freuddwyd na'r darn dw i'n cofio a'i fod wedi datblygu mewn ffordd resymol hyd at y darn dw i'n cofio. Dw i'n gobeithio beth bynnag achos os nad oedd, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn - "O ble ddaeth y darlun yma?" Ac wrth ysgrifennu'r geiriau yna mae cwestiwn arall yn codi - a'i cyfres o ddarluniau yw breuddwydion? Digon o hyn – pa fath o ddarlun oedd y breuddwyd? Gweld cwningen yn yr ardd gefn nes i a phoeni braidd achos, fel y gwyddoch, mae gen i ugain o goed afalau ifanc yna. Y peth olaf dw i eisiau yw cwningen yn cnoi'r rhisgl a'i lladd nhw cyn i mi allu mwynhau ffrwyth fy llafur - yn llythrennol. Wrth fy ngweld gwnaeth y gwningen ddiflannu i lawr twll ddofn yn y lawnt. Edrychais i lawr y twnnel hir ac, yn annisgwyl iawn, doedd y twnnel ddim yn dywyll. Gwelais siambr enfawr, yr un maint a fy nghegin. Roedd y siambr yn olau clir, dim tywyllwch o gwbl! Roedd cwningod ym mhob man yn dawnsio o gwmpas, mwy a mwy ohonyn nhw trwy'r amser. Wel beth dach chi'n disgwyl efo cwningod ynte? Sut yn y byd oedd to'r siambr yn cadw i fyny Dyw a ŵyr. I ble oedd yr holl bridd wedi mynd? A oes ffatri cwningod o dan y lawnt? Oes yna gynllun iddyn nhw gymryd y byd drosodd? A yw'n byd ni yn dod i ben a chwningod bydd yn ein rheoli ni yn y dyfodol agos? Byddwch yn wyliadwrus! Ac os dach chi'n gweld olion cwningod yn eich gardd .... wel .... Byddwch yn ofnus!

Canolbwyntio

Canolbwyntio ar y geiriau cywir Dw wedi sylwi yn ddiweddar ar air sydd yn cael ei ddefnyddio mwy a mwy, gair hyll a gair diangen ei ddefnyddio achos mae gair llawer gwell yn ein geirfa ni. Dw'n i ddim os mai fi sydd yn dychmygu hyn ond mae'n cael ei glywed mwy a mwy'r dyddiau hyn ac mae'n biti garw. Mae ein hiaith yn hyfryd i'w glywed ac yn hyfryd i'w siarad ac un o'r rhesymau yw treigliadau ac i mi mae'r gair yn sefyll allan mewn brawddegau ac yn amharu ar redeg y frawddeg. Gair Saesneg yw hi ond mae'n gair ni yn llawer gwell, yn hollol glir ei ystyr. Ein gair ni yw 'canolbwyntio' ond am ryw reswm mae 'ffocysio' yn cael ei ddefnyddio yn ei le. Dydw i ddim eisiau i chi feddwl mod i'n gwisgo lifrau Heddlu'r Iaith ond mae ein hiaith yn un hardd ac mae angen i ni edrych ar ei hol hi. Felly sefwch yn gadarn a gwnewch yn siŵr nad ydyn ni'n gadael i'n hiaith dirywio. Pwyntiwch at y canol a chanolbwyntiwch!

Rob Evans

www.gydangilydd.cymru

Geirfa

Breuddwyd - dream Cyfres - series Cwningen - rabbit Rhisgl - bark (of a tree) Yn llythrennol - literally Annisgwyl - unusual Siambr - chamber Pridd - soil Gwiliadwrus - observant, wary Diangen - unnecessary Amharu ar - to spoil Llifrau - uniform Dirywio - to deteriorate

Grŵpiau Ymarfer Cymraeg yn Lloegr

Basingstoke Welsh Learners

www.cymraegbasingstoke.blogspot.com

Belper Welsh Class 07864 149078

Bore Coffi Popeth yn Gymraeg Nottingham

0772 968 8426

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

07864 149078

Cylch Siarad Llundain

www.londonwelsh.org/learn-welsh/y-cylch-siarad

U3A Congleton

Groups.u3a.congleton@gmail.com

Ware U3A Welsh Class

Milton Keynes U3A welsh@mku3a.org

U3A Maghull & Lydiate

U3A Newport

Grŵp Siarad Cymraeg Llyfrgell Nantwich,

Dydd Llun 2.30yp - 3.30yp 01270 375361

U3A Merton Groups@mertonu3a.org.uk

Peterborough U3A

Clwb Siarad Cymraeg Preston

https://welshclubpreston.org/2014/01/11/clwb-siarad-preston-welsh-club/

Cyfarfodydd SSIW

Gair i'r gall! Edrych ar Forum SSIW i gadarnhau dyddiad a manylion y cyfarfod cyn mynd!

SSIW Wythnosol

Brighton – Nos Lun, 8.30yn mewn tafarn yn Brighton (cysylltwch a markwatkinprice am fanylion)

Great Malvern – Dydd Iau, 12.30 to 2yp, Caffi Llyfrgell Great Malvern (cysylltwch a meirionwen)

Lerpwl – Nos Lun, 7.30yn, Canolfan Cymry Lerpwl, Capel Bethel, Auckland Rd, L18 0HX (cysylltwch a mikefarnworth)

Rhydychen – Dydd Llun, 11.00 y bore, Welsh Mike's Bap Café, Abingdon Rd, OX1 4PE (Cysylltwch a johnwilliams_6)

Rhydychen - Nos Fercher, 8.30yn, The Big Society, 95 Cowley Rd, Oxford, OX4 1HR (Contact s-coates1)

Rhydychen – Dydd Iau, hanner dydd, Royal Blenheim pub, Pembroke/St Ebbe's St, OX1 1PT (cysylltwch a johnwilliams_6)

SSIW Misol / pob pythefnos

Bourton-on-Dunsmore - Sadwrn

Wyevale Garden Centre (Blooms), Straight Mile, Bourton-on-Dunsmore, Coventry, CV23 9QQ (Cysylltwch a alice9)

Caergrawnt - Nos Fawrth, 7.15, the Alma, 26 Russell Ct, Cambridge CB2 1HW (cyslltwch a maynard am fanylion)

Chelmsford - Nos Fercher, 7.00yn (i dechrau 7.30yn), Chelmsford Cathedral Chapter House, Chelmsford (cysylltwch a Gwenno)

Coventry - dwywaith pob mis, 10y bore, 1taf & 3ydd Dydd Iau, uwchben y caffi, Earlsdon Methodist Church, Coventry, CV5 6NF (cysylltwch a Peter Lockyer trwy ebostio info@coventrycambrian.co.uk)

Coventry – ail nos Fercher y mis, 6.30yn, Litten Tree, Coventry (cysylltch ac andyjone)

Exeter - pob pythefnos, Nos Lun, 7.30yn, The White Hart, South St, EX1 1EE (Cysylltwch a carolinewhite am fanylion)

Gloucester - 2ail Nos Fercher y mis, 7.30yn, England's Glory Pub, London Rd, Gloucester (Contact nic)

Leeds – 4ydd Sadwrn y mis, 11.30 y bore, Brewery Tap, Leeds (Cysylltwch a yorkshireend)

Manceinion - 3ydd Sadwrn y mis, 10.30y Bore, Café Siop Shop, 53 Tib St, M4 1LS (Cysylltwch a jeanbrandwood)

Milton Keynes - 1taf Nos Iau y mis, 6.00yn i 7.30yn, Ye Olde Swan, Newport Rd, Woughton-on-the-Green, MK6 3BS (Cysylltwch a janjones_1)

Norfolk – Nos Iau, 7.30 - 9.15yn, King's Head, Norwich St, East Dereham, Norfolk (Cysylltwch a Maynard am fanylion)

Sheffield - 2ail Sadwrn y mis, 1pm, Hagglers Café, Queens Rd, S2 4DU (Cysylltwch a hilary_coveney)

Amwythig - 1taf & 3ydd Nos Iau y mis, 7.30 yn, Wild Pig Hotel, Amwythig, SY3 9JT (Cysylltwch a bryanroberts)

South East Cornwall - Dydd Iau, 10.30 y bore, lleoliad i'w cadarnhau (Cysylltwch a LillianMSH am fanylion)

Sussex/Hants/Surrey (CACEN group), Mis Hydref 1pm, lleoliad i'w cadarnhau (Cysylltwch a markwatkinprice am fanylion)

Winchester - pob yn ail wythnos , Nos Iau, 7yn, The Cart and Horses, in London Rd, Kings Worthy, Winchester, SO23 7QN (Cysylltwch a mikebrown am fanylion)

Llais Y Derwent

Os dych chi eisiau sgwennu erthygl i 'Lais' cysylltwch trwy anfon neges ebost at

menteriaithlloegr@mail.com Mae hen gopiau o Lais Y Derwent ar gael am ddim ar wefan

www.derbywlelshlearnerscircle.blogspot.com